



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau ar ddefnyddio Hysbysiadau Cosbau Penodedig ar gyfer troseddau amgylcheddol

Cynnwys

Cosbau penodedig a gorfodaeth	2
Cyd-destun polisi	2
Cyhoeddi strategaeth orfodi	3
Defnyddio hysbysiadau penodedig ar gyfer troseddau sbwriel a gwastraff	3
Pwy all gyflwyno hysbysiadau cosbau penodedig?	4
Awdurdodau/Cynghorau lleol	4
Y defnydd o wasanaethau gorfodi trydydd parti	4
Awdurdod Parc Cenedlaethol	5
Cynghorau Cymuned	5
Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs)/Swyddogion Cymorth Cymunedol (CSOs)	6
Hyfforddiant a phroffesiynoldeb	6
Lefelau cosbau	6
Sut y defnyddir y derbynebaw	8
Awdurdodau eraill	9
Casglu tystiolaeth	9
Cadw Cofnodion	10
Cyflwyno hysbysiadau cosbau penodedig yn lle erlyn	10
Pryd i beidio â chyflwyno hysbysiad cosb benodedig yn lle erlyn	11
Cyflwyno Hysbysiadau Cosbau Penodedig ar dir preifat	12
Cael manylion troseddwy	12
Defnyddio cronfa ddata'r DVLA	13
Camau gorfodi yn erbyn ifanc	13
Pobl ifanc 10 i 15 oed	13
Pobl ifanc 16 i 17 oed	14
Talu Hysbysiadau Cosbau Penodedig	14
Gostyngiadau am Dalu'n Gynnar	15
Rheoliadau Dyddodi Gwastraff heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017	15
Rheoliadau Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2019	15
Ystyried heriau/cynrychiolaethau ac apeliadau	15
Mynd â throseddwy i'r llys am beidio â thalu	16
Atodiad A	17
Atodiad B	18

Cosbau penodedig a gorfodaeth

1. Gall cosbau penodedig ddarparu ffordd effeithiol a gweladwy i asiantaethau gorfodi ymateb i droseddau amgylcheddol lefel isel fel taflu sbwriel, cŵn yn baeddu, tipio anghyfreithlon, graffiti, gosod poster i'n anghyfreithlon a cherbydau wedi'u gadael/niwsans. Gallant gynnig opsiwn gorfodi arall i erlyn troseddwr drwy'r llysoedd. O'u gorfodi'n gywir gallant fod yn ddull atal effeithiol a gallant newid ymddygiad, gyda'r cyfan yn gallu helpu trefeddiannwyr i gyflawni eu dyletswyddau statudol i gadw tir perthnasol yn glir o sbwriel a gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru, felly, yn cefnogi'r defnydd o gosbau ariannol o'r fath ac mae profiad wedi dangos bod y cyhoedd yn croesawu eu defnydd yn gyffredinol cyhyd â'u bod yn cael eu defnyddio'n synhwyrol, eu gorfodi'n deg ac yn cael eu gweld fel ymateb i broblemau gwirioneddol.
2. Nid oes rheidrwydd ar awdurdod gorfodi i gynnig opsiwn i droseddwr honedig i dalu cosb benodedig. Yn yr un modd, gall troseddwr honedig ddewis peidio â derbyn neu dalu cosb benodedig, a dewis amddiffyn yr achos mewn llys yn lle hynny (gyda pherygl o fod yn atebol am gosb uwch o bosibl a chostau, o'i euogfarnu). Gan fod cyhoeddi Hysbysiad Cosb Benodedig yn ddewis arall yn lle erlyn, os nad yw troseddwr honedig yn talu cosb benodedig, mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi fod yn barod i'w erlyn am y drosedd wreiddiol. Bydd methu â sicrhau bod hysbysiadau cosbau penodedig yn cael eu talu yn tanseilio eu heffeithiolrwydd fel dull gorfodi. Felly, mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau ei fod yn casglu digon o dystiolaeth ddibynadwy a chredadwy y gellir ei defnyddio mewn llys.
3. Dylid ond defnyddio Hysbysiadau Cosbau Penodedig ar gyfer y drosedd y crëwyd nhw ar eu cyfer. Gallai methu dilyn y rheol hon wneud erlyn y drosedd wreiddiol yn anodd gan y gellid herio achos o beidio â thalu Hysbysiad Cosb Benodedig mewn llys. Yn ei dro, gallai hyn greu problemau pellach i awdurdod os oedd wedi defnyddio arfer o'r fath dros gyfnod o amser.
4. Mae'r brif ddeddfwriaeth a'r rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cosbau penodedig ar gyfer troseddau amgylcheddol a gwmpesir gan y canllawiau hyn wedi'u nodi yn Atodiad A y ddogfen hon.

Cyd-destun polisi

5. Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd ac i atal problemau parhaus. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran diogelu ein hamgylchedd lleol, gan fod ei ansawdd yn gallu effeithio ar lesiant pawb, waeth beth fo'u hoedran, rhywedd, anabledd, hil neu grefydd. Cynnal a gwella'r amgylchedd lleol yw un o'n gwasanaethau cyhoeddus pwysicaf y gall llywodraeth, boed genedlaethol neu leol, ei ddarparu i ddinasyddion. Mae hefyd yn un o'r prif feysydd sy'n dylanwadu ar sut mae pobl yn gweld eu gwasanaethau cyhoeddus ac effeithiolrwydd yr asiantaethau sy'n cydweithio i sicrhau bod ein mannau cyhoeddus yn lân, diogel a thaclus. Mae sut mae mannau cyhoeddus yn edrych yn bwysig nid yn unig i'r rhai sy'n byw a gweithio ynddynt, ond i'r rhai sy'n ymweld â nhw ac yn symud trwyddynt.
6. Pan na wneir rhywbeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel taflu sbwriel, yr arwyddir a roddir yw bod neb yn malio. Gall y broblem waethgu, gan arwain at fwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais difrifol o bosibl. Yn yr un modd, bydd amgylchedd lleol sy'n cael ei gadw'n dda a'i werthfawrogi fel lle unigryw ac arbennig gan ei gymuned, yn derbyn gofal ac yn llai tebygol o gael ei ddifrodi a gweld ymddygiad gwrthgymdeithasol a gall wella lesiant trigolion lleol. Gall trefn reoleiddio effeithiol, felly, gael effaith gyfrannol bwysig ar draws y nodau lesiant sydd wedi'u cynnwys yn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

7. Fodd bynnag, er eu bod yn bwysig, ni ddylai camau gorfodi gael eu defnyddio ar eu pennau eu hunain. Dylent ffurfio rhan o ddull mwy cyfannol sy'n integreiddio atal, cydweithio a gweithio mewn partneriaeth.

Cyhoeddi strategaeth orfodi

8. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod eu strategaeth orfodi ar gael i'r cyhoedd a chynnwys manylion am:
- droseddau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun Hysbysiadau Cosbau Penodedig;
 - faint fydd yr awdurdod yn dirwyo pobl am bob trosedd;
 - manylion unrhyw ostyngiadau am dalu'n gynnar;
 - sut mae Hysbysiadau Cosbau Penodedig yn cael eu cyflwyno;
 - sut mae'r awdurdod yn ymdrin â throseddwr ifanc;
 - beth fydd yr awdurdod yn ei wneud os na fydd y troseddwr yn talu;
 - sut i apelio (os yw'r opsiwn ar gael);
 - sut y bydd yr arian a dderbyniwyd o Hysbysiadau Cosbau Penodedig yn cael ei wario;
 - sut mae cofnodion yn cael eu cadw.

Defnyddio hysbysiadau penodedig ar gyfer troseddau sbwriel a gwastraff

9. Mae'r cosbau penodedig sydd ar gael ar gyfer troseddau amgylcheddol a'u lefel yn adlewyrchu difrifoldeb y troseddau ac mae'n bwysig bod y gosb benodedig gywir yn cael ei defnyddio am drosedd. Mae'r canlynol yn darparu canllawiau ar pryd y dylid defnyddio pob un:
- Dylid defnyddio cosbau penodedig ar gyfer sbwriel ar gyfer eitemau llai o sbwriel a byddai gwastraff hyd at swm y gellir ei roi mewn berfa ysgubo â llaw, un bag bin llawn yn cael ei ystyried yn dipio anghyfreithlon. Yn yr un modd, byddai sawl bag siopa'n llawn o sbwriel wedi'u gadael gyda'i gilydd yn cyfrif fel un achos o dipio anghyfreithlon. Fodd bynnag, o ystyried y gwahaniaethau posibl ym meintiau'r sbwriel fyddai ynghlwm wrth droseddau o'r fath, y swyddog gorfodi sydd i benderfynu yn y pen draw pa bwerau sydd fwyaf priodol ar gyfer y drosedd.
 - Dylid defnyddio cosbau penodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon ar gyfer achosion bach o wastraff amheryglus hyd at lwyth cist car, hyd at wyth bag du neu un neu ddwy eitem swmpus. Yn sgil y swm a'r difrifoldeb, dylai'r rhai sy'n gyfrifol am bob achos arall o dipio anghyfreithlon gael eu herlyn.
 - Dylid defnyddio cosbau penodedig ar gyfer troseddau yn ymwneud â chynwysyddion gwastraff pan fo busnes neu ddeiliad tŷ wedi methu bodloni gofynion hysbysiad awdurdod lleol mewn perthynas â lleoli gwastraff.
 - Gellir gweld canllawiau penodol ar ddefnyddio Hysbysiadau Cosbau Penodedig i ymdrin â thramgwyddau Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (fel ar gyfer cŵn yn baeddu), a Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned yn y canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014.¹
 - Dylid cyfeirio at y canllawiau penodol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyflwyno Hysbysiadau Cosbau Penodedig i ymdrin â throseddau dyletswydd gofal gwastraff cartref.²

1 Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014: Anti-social behaviour power – Statutory guidance for frontline professionals.

2 Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru ar Hysbysiadau Cosbau Penodedig Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref 2019..

Pwy all gyflwyno hysbysiadau cosbau penodedig?

10. Mae gan wahanol awdurdodau'r pŵer i gyflwyno Hysbysiadau Cosbau Penodedig am droseddau penodol ac mae tabl 1 isod yn rhoi trosolwg:

Tabl 1: Trosolwg o'r troseddau y gall pob awdurdod yng Nghymru gyflwyno Hysbysiad Cosbau Penodedig ar eu cyfer

Awdurdod	Trosedd
Awdurdod Lleol	Taflu sbwriel, cŵn yn baeddu, tipio anghyfreithlon, graffiti, gosod posterï'n anghyfreithlon, sŵn larwm (dim deiliad allweddol enwebedig), troseddau Deddf Sŵn, parcio niwsans, dosbarthu llenyddiaeth am ddim heb ganiatâd ar dir dynodedig, gadael cerbyd, troseddau cynwysyddion gwastraff, methu cyflwyno hysbysiad trosglwyddo gwastraff neu drwydded cludo gwastraff, troseddau dyletswydd gofal gwastraff cartref.
Cynghorau Cymuned a Thref	Sbwriel, graffiti, gosod posterï'n anghyfreithlon.
Cyfoeth Naturiol Cymru	Methu cyflwyno hysbysiad trosglwyddo gwastraff neu drwydded cludo gwastraff, troseddau dyletswydd gofal cartref.
Awdurdod Parc Cenedlaethol	Taflu sbwriel, gadael cerbyd (mewn mannau lle mae'r Awdurdod yn awdurdod cynllunio hefyd).
Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac unigolion sydd wedi'u hachredu o dan gynlluniau achredu diogelwch cymunedol	Taflu sbwriel Dim ond os oes ganddynt awdurdod: o ran graffiti a gosod posterï'n anghyfreithlon, gweler canllawiau ar wahân ar Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2014 mewn perthynas â Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned a thorri Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus. ³

Awdurdodau/Cynghorau lleol

11. Gall gweithiwr awdurdod lleol gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig cyn belled ei fod wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i wneud hynny. Dylai swyddog awdurdodedig fod yn gyfarwydd â'r canlynol:

- pwerau'r awdurdod;
- y strategaeth ar gyfer cyflwyno a gorfodi Hysbysiadau Cosbau Penodedig;
- lefelau cosbau;
- meysydd lle defnyddir Hysbysiadau Cosbau Penodedig.

Y defnydd o wasanaethau gorfodi trydydd parti

12. Yn ogystal â gweithwyr awdurdod lleol, gall awdurdod (a'i weithwyr) wneud trefniadau gyda chontractwyr nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. Mewn achos o'r fath, mae'n rhaid i'r unigolyn/gweithiwr gael awdurdod unigol ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol i gyflwyno cosbau penodedig ar ei ran.

³ Rheoliadau Troseddau Amgylcheddol (Cosbau Penodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2008.

13. Pan fo awdurdodau lleol yn awdurdodi contractwyr dylent:
- sicrhau bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal i benderfynu ar eu haddasrwydd a'u gallu;
 - sicrhau bod contractwyr yn bodloni'r un safonau ag y byddai'n ddisgwyliedig gan yr awdurdod ei hun ac yn deall unrhyw weithdrefnau neu bolisiau a bennwyd yn lleol yn llawn cyn iddynt ddechrau cyflwyno cosbau penodedig, er enghraifft y defnydd o'r Gymraeg, fel y bo'n briodol.
14. Argymhellir hefyd y dylid darparu canllawiau i gontractwyr i sicrhau bod y defnydd o Hysbysiadau Cosbau Penodedig yn rhesymol a chymesur i'r amgylchiadau.
15. Er bod y trefniadau rhwng awdurdod lleol a'r contract yn fater i awdurdodau unigol, dylid ystyried yr egwyddorion canlynol hefyd fel y gall contractwyr weithredu mewn modd teg a rhesymol:
- dylid nodi swyddogion gorfodi preifat yn glir oni bai y gellir dangos bod natur eu hymddygiad ar yr achlysur dan sylw yn golygu na ddylent ar y pryd gael eu nodi fel rhywun sy'n gwneud gwaith o'r fath;
 - dylid ystyried sut y gellir defnyddio addysg a chodi ymwybyddiaeth i ategu neu gefnogi unrhyw gamau gorfodi a gymerir gan y contractwr trydydd parti. Er enghraifft, efallai y bydd yr awdurdod lleol am drefnu cytundeb gyda'r contractwr sy'n galluogi'r defnydd o ddisgresiwn lle bo amgylchiadau'n briodol;
 - dylid bod yn ofalus i beidio â thargedu grwpiau economaidd-gymdeithasol penodol a allai arwain at y canfyddiad bod gorfodaeth yn canolbwyntio ar y rhai sy'n cael eu hystyried yn "dargedau hawdd";
 - gall yr awdurdod ystyried defnyddio mwy o ddeunydd esboniadol mewn perthynas â thafu sbwriel i helpu i addysgu troseddwr am ganlyniadau eu gweithredoedd.

Awdurdod Parc Cenedlaethol

16. Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol bŵer 'awdurdodau sbwriel' ar gyfer eu hardal (o dan Atodlen 9 o Ddeddf Amgylchedd 1995) a gallant awdurdodi swyddogion i gyflwyno cosbau penodedig am droseddau sbwriel ar yr un sail ag awdurdodau sydd wedi'u diffinio fel awdurdodau sbwriel o dan adran 88(9) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gall swm y gosb benodedig gael ei nodi gan y 'prif awdurdod/au sbwriel' yn yr ardal honno (nad yw'n cynnwys awdurdodau Parciau Cenedlaethol), er mai'r Parc Cenedlaethol o bosibl fydd yn penderfynu beth fydd y gostyngiad am dalu'n gynnar.

Cynghorau Cymuned

17. Gall gweithwyr cynghorau cymuned ac unigolion eraill (yn cynnwys eu gweithwyr) a awdurdodwyd gan gyngor cymuned gyflwyno cosbau penodedig am daflu sbwriel, graffiti a gosod posteri'n anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru nodi amodau i'w bodloni gan unigolyn o'r fath cyn y gall cyngor cymuned ei awdurdodi i gyflwyno hysbysiadau cosbau penodedig.⁴
18. Mae hefyd yn bwysig bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal a bod unrhyw un sydd wedi'i awdurdodi i gyflwyno cosbau penodedig ar ran cynghorau cymuned a thref yn cael gwybod am bolisiau a gweithdrefnau. Ni ddylid awdurdodi cynghorwyr cymuned o dan y ddarpariaeth hon.

4 Rheoliadau Troseddau Amgylcheddol (Cosbau Penodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2008.

Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs)/Swyddogion Cymorth Cymunedol (CSOs)

19. O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, gall Prif Swyddogion yr heddlu roi amrywiaeth o bwerau i PCSOs/CSOs, ac unigolion sydd wedi'u hachredu o dan gynlluniau achredu diogelwch cymunedol; mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodlenni 4 a 5 o'r Ddeddf honno (ar gyfer PCSOs ac unigolion achrededig yn y drefn honno). Mae'r rhestr hon yn cynnwys pwerau swyddog awdurdodedig i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am droseddau amgylcheddol yn cynnwys sbwriel (D.S. ar gyfer trosedd adran 87 yn unig), graffiti, gosod posteri'n anghyfreithlon a thorri PSPO mewn perthynas â chŵn yn baeddu. Gellir defnyddio'r pwerau hyn ar ran awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn achos troseddau sbwriel yn unig.
20. Mae derbynebau ar gyfer hysbysiadau cosbau penodedig a gyflwynwyd gan PCSOs/CSOs ac unigolion achrededig yn cael eu cadw gan yr awdurdod y cyflwynwyd yr Hysbysiadau Cosbau Penodedig ar eu rhan h.y. bydd y swm a delir yn mynd yn ôl i'r awdurdod lleol.
21. Dylai awdurdodau sydd â diddordeb mewn defnyddio'r adnodd ychwanegol posibl a ddarperir gan PCSOs/CSOs ac unigolion achrededig gysylltu â Phrif Swyddog Heddlu eu hardal i drafod y mater ymhellach. Mae'r penderfyniad ar ba bwerau i'w defnyddio yn un gweithredol ar hyn o bryd i Brif Swyddog yr Heddlu er bod bwriad i safoni'r pwerau sydd ar gael i PCSOs/CSOs yn y dyfodol agos i gynnwys eu holl bwerau amgylcheddol. Os yw PCSOs/CSOs a/neu unigolion achrededig yn cael eu darparu, mae'n rhaid i awdurdodau:
 - brosesu unrhyw gosbau penodedig a gyflwynwyd, yn cynnwys erlyn cosbau penodedig heb eu talu;
 - hysbysu PCSOs/CSOs ac unigolion achrededig beth yw swm y gosb benodedig yn ardal yr awdurdod lleol am bob trosedd y mae ganddynt bwerau ar eu cyfer a sicrhau bod hysbysiadau cosbau penodedig priodol ar gael;
 - gweithio gyda'r heddlu i sicrhau bod hyfforddiant PCSOs/CSOs ac unigolion achrededig yn sicrhau dealltwriaeth lawn o ardal ffin a pholisïau a gweithdrefnau gorfodi'r awdurdod, yn cynnwys unrhyw rai a nodwyd mewn strategaethau gorfodi ac ati.

Hyfforddiant a phroffesiynoldeb

22. Os yw'r gwasanaeth i ennill hyder a pharch y cyhoedd, mae'n hanfodol rhoi'r sgiliau a'r hyfforddiant i staff gorfodi ar bob lefel i wneud eu swyddi'n effeithiol, waeth a ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr awdurdod gorfodi, neu gan gcontractwr.
23. Mae'r prosesau swyddfa cysylltiedig yn bwysig ac mae staff sy'n eu cwblhau angen lefelau tebyg o sgiliau, hyfforddiant a phroffesiynoldeb â'r swyddogion gorfodi mwy gweladwy ar y stryd. Dylai awdurdodau gorfodi ddarparu digon o staff ar gyfer y llwyth gwaith. Dylent hefyd sicrhau bod gan y staff hynny (boed yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr awdurdod neu gan gcontractwr) y sgiliau, hyfforddiant, atebolrwydd, awdurdod a'r adnoddau i roi gwasanaeth proffesiynol, effeithlon, amserol, hawdd ei ddefnyddio sydd o ansawdd uchel i'r cyhoedd.

Lefelau cosbau

24. Ni ddylai codi refeniw fod yn amcan gorfodi.
25. Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu pennu ei symiau cosbau penodedig ei hun, mae'n rhaid i'r rhain ddod o fewn yr ystodau a bennwyd yn Rheoliadau Troseddau Amgylcheddol (Cosbau Penodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2008 (rheoliad 2). Mae'r ystodau yn amrywio o £75 i £150 ar gyfer y troseddau hynny sydd â swm diofyn o £75 ac o £100 i £150 am droseddau sydd â swm diofyn o £100 (gweler Tabl 2 isod).

26. Mae'n bwysig iawn bod lefel y gosb benodedig yn briodol i amgylchiadau lleol. Bydd cosbau penodedig sy'n rhy uchel i amodau lleol ac yn arwain at gyfraddau dim talu sylweddol, yn wrthgynhyrchol, fel y bydd cosbau sy'n uwch na'r ddirwy debygol am beidio â thalu.

Tabl 2: Trosolwg o symiau cosbau penodedig yng Nghymru

Trosedd	Cosb ddiofyn	Isafswm cosb lawn	Uchafswm cosb lawn	Isafswm cosb ostyngol
Taflu sbwriel	£75	£75	£150	£50
Cŵn yn baeddu	£75	£75	£150	£50
Graffiti	£75	£75	£150	£50
Gosod poster i'n anghyfreithlon	£75	£75	£150	£50
Tipio anghyfreithlon	£200	£150	£400	£120
Dyletswydd gofal gwastraff cartref	£300	£300	£300	£150
Gadael cerbyd	£200	£200	£200	£120
Parcio niwsans	£100	£100	£100	£60
Methu cydymffurfio â Hysbysiad Gwarchod y Gymuned	—	—	£100	Pennwyd gan yr Awdurdod
Methu cydymffurfio â Hysbysiad Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus	—	—	£100	Pennwyd gan yr Awdurdod
Dosbarthu llenyddiaeth heb awdurdod ar dir dynodedig	£75	£75	£150	£50
Methu cyflwyno nodyn trosglwyddo gwastraff	£300	£300	£300	£180
Methu darparu dogfennau (trwydded cludo gwastraff)	£300	£300	£300	£180
Troseddau cynwysyddion gwastraff domestig	£100	£100	£150	£60
Sŵn o anheddau	£100	£100	£150	£60
Sŵn o adeiladau trwyddedig	£500	£500	£500	Ni chaniateir gostyngiad

Sut y defnyddir y derbynebâu

27. Mae'r gwahanol Ddeddfau y cyflwynir cosbau penodedig oddi tanynt yn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio eu derbynebâu cosbau penodedig i helpu i dalu costau rhai swyddogaethau penodedig yn unig, ac mae'r rhain wedi'u rhestru isod yn Nhabl 3.
28. Er bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer o dan y ddeddfwriaeth i wneud rheoliadau a all nodi ar gyfer pa swyddogaethau eraill y gall awdurdod ddefnyddio ei dderbynebâu hysbysiadau cosbau penodedig ar eu cyfer, neu ei fod yn gallu eu defnyddio ar gyfer unrhyw un o'i swyddogaethau, nid oes bwriad defnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd.
29. Mae Tabl 3 isod yn amlinellu ble y gall awdurdodau lleol wario incwm o gosbau penodedig a gyflwynwyd am wahanol droseddau amgylcheddol. O ran taflu sbwriel, gellid gwario'r incwm er enghraifft ar gyfathrebu ac addysg i leihau achosion o daflu sbwriel neu ar ddarparu biniau a seilwaith gwaredu sbwriel stryd arall.

Tabl 3: Defnydd o dderbynebâu cosbau penodedig a swyddogaethau penodedig

Trosedd	Swyddogaethau y gellid defnyddio derbynebâu ar eu cyfer
Taflu sbwriel, graffiti, gosod posterï'n anghyfreithlon, dosbarthu deunydd argraffedig am ddim heb awdurdod ar dir dynodedig www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/16/section/96	Sbwriel a gwastraff (yn cynnwys cadw tir a phriffyrdd yn rhydd o sbwriel a gwastraff, a gorfodi yn erbyn taflu sbwriel a thaflu sbwriel o gerbydau). Graffiti a gosod posterï'n anghyfreithlon. Rheoli a gorfodi yn erbyn dosbarthu llenyddiaeth am ddim heb awdurdod.
Parcio niwsans www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/16/section/83	Traffig ffyrdd, sbwriel a gwastraff.
Gadael cerbyd www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/16/section/10	Traffig ffyrdd, sbwriel a gwastraff.
Tipio anghyfreithlon www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1024/regulation/2/made	Nid oes cyfyngiadau ar sut y gall cynghorau ddefnyddio'r incwm hwn.
Dyletswydd gofal gwastraff cartref www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/331/contents/made	Nid oes cyfyngiadau ar sut y gall cynghorau ddefnyddio'r incwm hwn.
Gorchmynion diogelu mannau agored cyhoeddus (cwn) www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/12/part/4/chapter/2/enacted	Nid oes cyfyngiadau ar sut y gall cynghorau ddefnyddio'r incwm hwn.
Sŵn sy'n uwch na'r lefelau a ganiateir adeiladau domestig www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/16/section/83	Niwsans sŵn statudol, sŵn gyda'r nos a larymau tresmaswyr sain.

Trosedd	Swyddogaethau y gellid defnyddio derbynebau ar eu cyfer
Sŵn sy'n uwch na'r lefelau a ganiateir – adeiladau domestig www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/16/section/83	Niwsans sŵn statudol, sŵn gyda'r nos a larymau tresmaswyr sain.
Sŵn larwm dim deiliad allwedd www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/16/section/75	Niwsans sŵn statudol, sŵn yn y nos a larymau tresmaswyr sain.
Methu dangos dogfennau gwastraff www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/43/section/73A	Gwastraff ar dir.

Awdurdodau eraill

30. Gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddefnyddio derbynebau hysbysiadau cosbau penodedig ar gyfer eu gwaith gorfodi sbwriel eu hunain.
31. Mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru dalu ei hysbysiadau cosbau penodedig i Gronfa Gyfunol Cymru.
32. Mae'n rhaid i'r heddlu dalu derbynebau o hysbysiadau cosbau penodedig a gyflwynwyd gan PCSOs i'w hawdurdod lleol.

Casglu tystiolaeth

33. Yn achos troseddau fel taflu sbwriel, bydd erlyniad llwyddiannus yn gofyn am dystiolaeth ddigonol i brofi bod y troseddwr yn euog heb unrhyw amheuaeth. Er y gellid cyflwyno cosb benodedig pan fo gan y swyddog awdurdodedig "reswm i gredu" bod y drosedd wedi'i chyflawni, bydd angen cyflwyno tystiolaeth i brofi'r drosedd heb unrhyw amheuaeth er mwyn erlyn y troseddwr os nad yw wedi talu'r gosb benodedig. Bydd methu mynd ar drywydd cosbau heb eu talu yn tanseilio bygythiad gwaith gorfodi, a'i effeithiolrwydd fel dull atal.
34. Disgwylir i swyddogion awdurdodedig gasglu tystiolaeth yn eu llyfr nodiadau PACE (neu fersiwn electronig cyfwerth) a bydd hyn yn cynnwys disgrifiad o'r canlynol i gyd:
 - y drosedd (er enghraifft, y math o sbwriel a ollyngwyd neu natur y graffiti);
 - y dyddiad a'r amser;
 - y lleoliad;
 - enw, rhywedd a chyfeiriad y troseddwr;
 - oedran y troseddwr;
 - golwg y troseddwr;
 - y tywydd ac amodau golau ar y pryd;
 - rhif adnabod y swydd gorfodi;
 - rhif yr Hysbysiad Cosb Benodedig.
35. Gall awdurdodau gorfodi gymryd camau gorfodi ar sail tystiolaeth CCTV, neu dystiolaeth a ddarparwyd gan aelodau'r cyhoedd cyn belled bod y dystiolaeth yn ddigonol i fodloni'r safonau prawf sy'n berthnasol i'r drosedd neu'r tramgwydd dan sylw ym marn yr awdurdod gorfodi.

36. Dylid cadw unrhyw luniau, clipiau fideo a nodiadau gan y swyddog gorfodi am yr amgylchiadau fel tystiolaeth bellach bod y drosedd wedi digwydd ac i helpu i ddatrys unrhyw anghydfod.
37. Dylai swyddogion gorfodi ddarparu cyfarpar, hyfforddiant a chanllawiau priodol i'w staff i gasglu tystiolaeth o'r fath o dan yr amgylchiadau a nodwyd gan yr awdurdod.
38. Dylai swyddogion gorfodi ddatgelu eu tystiolaeth ar y cyfle cyntaf posibl.

Cadw Cofnodion

39. Mae'n rhaid i awdurdodau gorfodi gadw cofnodion o Hysbysiadau Cosbau Penodedig a gyflwynwyd ac unrhyw dystiolaeth rhag ofn i'r achos fynd i'r llys. Bydd hyn yn cynnwys:
 - Pob Hysbysiad Cosb Benodedig a phenderfyniad a gymerwyd ym mhob cam o gyflwyno drwedd i dalu neu erlyn;
 - Unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ar gyfer pob Hysbysiad Cosb Benodedig;
 - Y dystiolaeth y seiliwyd pob Hysbysiad Cosb Benodedig arni, rhag ofn i'r achos fynd i'r llys.

Cyflwyno hysbysiadau cosbau penodedig yn lle erlyn

40. Dylai swyddog awdurdodedig ystyried y canlynol cyn penderfynu ai erlyn ai peidio neu gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig yn lle:
 - mae trosedd wedi'i chyflawni;
 - mae'n cael ei ystyried yn ymateb cymesur (gweler isod am amgylchiadau lle na ddylid cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig);
 - mae yna dystiolaeth ddigonol i brofi bod y troseddwr yn euog i gefnogi erlyniad os nad yw'r troseddwr yn talu'r gosb benodedig;
 - mae'r troseddwr yn deall pam mae'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gyflwyno;
 - credir bod yr enw a'r cyfeiriad a roddodd y troseddwr yn gywir (mae rhagor o fanylion am hyn i'w cael yn ddiweddarach yn y ddogfen).
41. Os penderfynir cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig yn lle erlyn, rhaid ei gyflwyno i'r unigolyn sydd wedi cyflawni'r drosedd. Lle bo'n bosibl, dylid cyflwyno'r Hysbysiad yn y fan a'r lle a dylai troseddwr honedig gael eu hysbysu o drosedd ar y pryd. Os oes angen, gellir cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig drwy'r post hefyd.
42. Mae'n rhaid i Hysbysiad Cosb Benodedig yn lle erlyn pob un o'r isod:
 - sut y cyflwynwyd yr Hysbysiad Cosb Benodedig (yn bersonol neu drwy'r post);
 - y drosedd honedig, er enghraifft, taflu sbwriel neu graffiti;
 - manylion am y drosedd, er enghraifft, pa fath o sbwriel a daflwyd;
 - ble a phryd y digwyddodd y drosedd;
 - swm y gosb i'w thalu (ac a oes gostyngiad am dalu'n gynnar);
 - sut i dalu'r gosb;
 - erbyn pryd y dylid talu'r gosb (mae'n rhaid i'r dyddiad fod o leiaf 14 diwrnod o'r dyddiad cyflwyno) er mwyn cyflawni atebolrwydd y troseddwr honedig i gael ei erlyn.
43. Ni ddylai Hysbysiad Cosb Benodedig yn lle erlyn gyfuno swm y gosb benodedig (a allai fod hyd at £150 am daflu sbwriel) gyda'r ddirwy bosibl y gallai llys ei chyflwyno am fod yn euog o'r drosedd (a allai fod yn hyd at £2,500 am daflu sbwriel).

44. Os yw'r awdurdod gorfodi'n gweithredu proses fel y gall troseddwr honedig ddadlau yn erbyn eu hatebolrwydd am y drosedd y mae'r gosb benodedig yn ymwneud â hi, dylai'r Hysbysiad Cosb Benodedig gynnwys cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r broses honno hefyd, yn cynnwys:
- sut, pryd a ble i anfon unrhyw wybodaeth berthnasol;
 - beth sy'n digwydd os yw'r ddadl yn llwyddiannus (h.y. ni chymerir camau pellach a bydd yr hysbysiad cosb benodedig yn cael ei ganslo);
 - beth sy'n digwydd os yw'r ddadl yn cael ei gwrthod ac nad yw'r troseddwr yn talu (dylid erlyn y troseddwr, oni bai bod gan yr awdurdod gorfodi resymau cadarn i ganslo'r Hysbysiad Cosb Benodedig);
 - sut i gwyno.

Pryd i beidio â chyflwyno hysbysiad cosb benodedig yn lle erlyn

45. Os oes unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol dylai swyddog awdurdodedig ystyried a yw Hysbysiad Cosb Benodedig yn briodol:
- a) **nid oes atebolrwydd troseddol** – er enghraifft, mae'r unigolyn dan sylw wedi'i eithrio e.e. mae'r troseddwr yn blentyn o dan 10 oed (dylid hysbysu rhiant neu warcheidwad y plentyn yn lle hynny);
 - b) **mae camau gweithredu yn amhriodol neu fe fyddent yn anghymesur i'r drosedd** – er enghraifft, os yw'r troseddwr yn agored i niwed neu'r drosedd yn ddibwys ac ni fyddai erlyn o fudd i'r cyhoedd;
 - c) **mae erlyn yn cael ei ystyried yn ddewis mwy addas** – er enghraifft, os yw'r:
 - drosedd yn fawr e.e. graffiti neu bosteri anghyfreithlon hiliol neu ddifriol eraill; torri gwydr yn fwriadol; neu fod maint ac effaith y drosedd yn teilyngu erlyniad;
 - drosedd yn gyfystyr â difrod troseddol ar sail hil neu grefydd o dan adran 30 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998;
 - drosedd wedi'i chyflawni er elw e.e. mae'r troseddwr yn gludwr gwastraff cofrestredig;
 - droseddwr yn dreisgar neu'n ymosodol;
 - drosedd yn cael ei chyflawni gan droseddwr dyfal/ailadroddus (unigolyn sydd wedi cael dwy drosedd neu fwy wedi'u cofnodi).
46. Mewn perthynas â'r pwynt bwled olaf, mae Llywodraeth Cymru'n credu ei bod hi'n fuddiol cadw data ar Hysbysiadau Cosbau Penodedig a gyflwynwyd am dipio anghyfreithlon fel ei fod ar gael i awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Pan fydd swyddogion wedi cyrraedd y cam hwnnw o'r ymchwiliad lle maent yn ystyried pa gamau gorfodi i'w cymryd, dylent wirio unrhyw hanes troseddu posibl i ddechrau.
- d) **unrhyw drosedd taflu sbwriel a gyflawnwyd yn ddamweiniol yn nhyb y swyddog** – er enghraifft, os yw rhywbeth yn syrthio o boced rhywun heb fod yr unigolyn yn ymwybodol o hynny. Dylid ond cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig pan fydd yna dystiolaeth glir bod yr unigolyn wedi bwriadu gollwng a gadael y sbwriel. Nid oes budd cyhoeddus i gymryd camau gorfodi os nad oes dystiolaeth glir i ddangos bod yr unigolyn wedi bwriadu taflu sbwriel;
 - e) **os nad yw'r ymddygiad dan sylw yn dod o dan delerau'r drosedd y cyflwynir y gosb benodedig amdani** – er enghraifft, ni ddylid cyflwyno cosbau penodedig ar gyfer taflu sbwriel am droseddau tipio anghyfreithlon neu dramgwyddau yn ymwneud â chynwysyddion gwastraff (mae pwerau cosbau penodedig eraill ar gael ar gyfer y rhain),

neu i geisio osgoi neu fynd o gwmpas y prawf “niwed i amwynder lleol” yn y ddeddfwriaeth ar gyfer tramgwyddau yn ymwneud â chynwysyddion gwastraff.

Cyflwyno Hysbysiadau Cosbau Penodedig ar dir preifat

47. Mae’n drosedd gollwng sbwriel ar unrhyw dir awdurdod lleol sy’n agored i’r awyr ar o leiaf un ochr ac y mae gan y cyhoedd fynediad iddo (gyda neu heb dâl). Mae hyn yn cynnwys tir preifat y mae gan y cyhoedd fynediad iddo, fodd bynnag nid yw’n drosedd gollwng sbwriel gyda chaniatâd y tirfeddiannwr.⁵
48. Nid oes pwerau mynediad penodol yn gysylltiedig â gwaith gorfodi mewn perthynas â thaflu sbwriel. Fodd bynnag, o dan adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd gall awdurdodau lleol, o dan amgylchiadau penodol, fynd ar dir preifat heb ganiatâd wrth ymchwilio i ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon.
49. I osgoi unrhyw gwestiwn ynghylch hawl swyddog gorfodi i gyflawni ei waith mewn perthynas â throseddau taflu sbwriel ar dir preifat ac unrhyw awgrym o dresbasu, dylai swyddogion gorfodi, lle bo’n ymarferol bosibl, siarad ac ymgynghori â thirfeddiannwyr/meddiannwyr cyn mynd ar y tir i gael eu caniatâd. Bydd hyn hefyd yn helpu i weld a yw’r tirfeddiannwr/meddiannydd wedi rhoi caniatâd i ollwng sbwriel ar ei dir (os ydyw, nid oes trosedd wedi’i chyflawni). Efallai y bydd awdurdodau gorfodi am drafod eu dull gorfodi gyda pherchenogion ardaloedd mawr o dir preifat y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt (e.e. canolfannau siopa, parciau manwerthu, hybiau trafniadaeth ac ati) cyn gwneud unrhyw waith gorfodi yno.
50. Os yw tirfeddiannwr/meddiannydd yn ceisio atal swyddogion gorfodi awdurdodedig rhag dod ar ei dir ond heb roi caniatâd penodol i ollwng sbwriel ar ei dir, dylai swyddogion gorfodi ystyried a yw camau gorfodi yn erbyn troseddau a gyflawnwyd ar y tir hwnnw o fudd i’r cyhoedd, yn enwedig os yw’r tirfeddiannwr/meddiannydd yn amharod i gefnogi’r camau gorfodi. Gall unrhyw swyddog gorfodi sy’n parhau i fod ar y tir neu’n dod ar y tir eto ar ôl i’r tirfeddiannwr/meddiannydd ofyn iddo adael fod yn tresbasu.
51. Nid yw dilysrwydd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y troseddwr (erlyn neu gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig) yn cael ei effeithio gan a oes gan y troseddwr neu’r swyddog gorfodi hawl gyfreithiol i gael mynediad i’r tir y cyflawnwyd y drosedd arno.

Cael manylion troseddwr

52. Mae’r rhan fwyaf o ddarpariaethau cosbau penodedig ar gyfer troseddau amgylcheddol yn rhoi’r pŵer i’r rhai sydd wedi’u hawdurdodi i gyflwyno’r cosbau i fynnu enw a chyfeiriad troseddwr. Mae methu â chyflenwi’r manylion hynny, neu roi enw a chyfeiriad ffug i swyddog awdurdodedig, yn drosedd y gellir rhoi uchafswm dirwy lefel 3 ar y raddfa safonol amdani o euogfarnu rhywun.⁶ Argymhellir bod awdurdodau’n cytuno ar brotocol gweithio gyda’u hawdurdod heddlu fel y gall swyddogion yr heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gynorthwyo mewn sefyllfaoedd lle mae troseddwr honedig yn gwrthod rhoi manylion.
53. Os oes gan PCSO bŵer i gadw troseddwr, gall wneud hynny am hyd at 30 munud cyn i gwnstabl yr heddlu gyrraedd.

5 Gellir ond rhoi caniatâd mewn perthynas â gwaredu sbwriel mewn cwrs dŵr, llyn neu bwl os yw’r un person yn berchen ar yr holl dir oddi amgylch (adran 87 (4B) Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990).

6 Nid yw’n drosedd methu â darparu enw a chyfeiriad i swyddog gorfodi mewn cysylltiad â gorfodi o dan Orchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, adran 68).

Defnyddio cronfa ddata'r DVLA

54. Gall swyddog awdurdodedig ddefnyddio cronfa ddata ceidwaid cerbydau'r DVLA i ganfod perchenogion cerbydau a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r troseddau canlynol:

- taflu sbwriel;
- tipio anghyfreithlon;
- cŵn yn baeddu;
- gosod posterï'n anghyfreithlon;
- cerbydau wedi'u gadael/niwsans;
- niwsans sŵn.

Camau gorfodi yn erbyn pobl ifanc

55. Dylai awdurdodau gorfodi benderfynu ar bolisi cyson o ran a ddylid cymryd camau gorfodi mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd gan bobl o dan 18 oed a sut y bydd camau gorfodi'n cael eu cymryd. Dylent weithio gyda'r tîm troseddwr ifanc a'r gwasanaethau plant i gynllunio'r polisi hwn.
56. Ni ellir cyflwyno Hysbysiadau Cosbau Penodedig i blant o dan 10 oed, gan eu bod o dan oedran cyfrifoldeb troseddol. Gellir ystyried a yw hi'n briodol cynghori eu rhieni neu'r rhai sy'n gofalu amdanynt i'w gwneud yn ymwybodol o'u hymddygiad.
57. Wrth ymdrin ag unrhyw blentyn neu berson ifanc hyd at 17 oed, dylech:
- fod mewn iwnifform bob amser;
 - peidio byth â chyffwrdd person ifanc;
 - dod ato o'r tu blaen, nid o'r tu ôl;
 - dweud pwy ydych chi a dangos dull adnabod ffurfiol;
 - gweithio mewn paruau yn ddelfrydol.

Pobl ifanc 10 i 15 oed

58. Dylid ond cyflwyno cosbau penodedig yn y fan a'r lle i bobl ifanc 10 i 15 oed os:
- yw'r troseddwr honedig yn hysbys i'r swyddog gorfodi; a
 - a bod ysgol y troseddwr honedig wedi cytuno i ddefnyddio cosbau penodedig.
59. Dylai awdurdodau gorfodi hysbysu rhieni neu warcheidwad cyfreithiol y troseddwr honedig cyn gynted â phosibl.
60. Os nad yw'r swyddog gorfodi'n adnabod y troseddwr honedig, neu os nad yw'r ysgol wedi cytuno i ddefnyddio cosbau penodedig, dylai swyddogion gael manylion y person ifanc a manylion ei rieni neu warcheidwad cyfreithiol er mwyn gwneud ymholiadau pellach. Os penderfynir wedyn fod cosb benodedig yn addas, dylid ei chyflwyno i'r troseddwr honedig yn bersonol gyda rhiant neu warcheidwad cyfreithiol yn bresennol. Os oes rhaid anfon y gosb benodedig drwy'r post, dylid hysbysu rhiant neu warcheidwad cyfreithiol y troseddwr honedig yr un pryd.

Pobl ifanc 16 i 17 oed

61. Dylai swyddogion gorfodi gael yr holl fanylion canlynol gan y troseddwr honedig:
- enw;
 - cyfeiriad;
 - oedran;
 - dyddiad geni.
62. Dylent hefyd gael enw a chyfeiriad rhiant neu warcheidwad cyfreithiol y troseddwr honedig.
63. Dylid rhoi gwybod i'r troseddwr ifanc y bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'u tîm troseddwr ifanc lleol.
64. Os oes angen cyfweld person ifanc o dan 17 oed o dan rybudd, mae'n rhaid i oedolyn priodol fod yn bresennol.

Talu Hysbysiadau Cosbau Penodedig

65. Dylai awdurdodau gorfodi gynnig amrywiaeth o gyfleusterau i bobl dalu cosbau penodedig. Pan fyddant yn darparu canolfannau talu, dylai'r rhain fod yn ddiogel a hygyrch. Dylai awdurdodau gorfodi sicrhau bod unrhyw gyfleuster talu (yn enwedig taliadau dros y ffôn ac ar-lein) yn gallu cadarnhau unrhyw swm sy'n ddyledus os derbyniwyd taliad rhannol yn unig. Ni chaniateir codi tâl am dalu gan ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd personol⁷.
66. Os oes yna oedi anarferol gyda'r system bost, dylai awdurdodau ganiatáu taliadau hwyr drwy'r post wrth ystyried a dderbyniwyd taliad o fewn y cyfnod statudol. Efallai y bydd awdurdodau gorfodi am gadw'r amlen yr anfonwyd y taliadau ynddi, gan fod modd defnyddio'r ffrancio fel tystiolaeth o ddyddiad postio.
67. Ystyrir bod Hysbysiad Cosb Benodedig wedi'i 'dal' cyn gynted ag y bydd yr awdurdod gorfodi'n ei dderbyn. Dylai'r awdurdod gorfodi gau'r achos yn fuan. Dylai systemau awdurdod gofnodi'r diwrnod y mae'n derbyn taliadau'n gywir fel na fydd yn cymryd unrhyw gamau gorfodi eraill.
68. Mae yna gyfnod safonol ar gyfer talu cosbau penodedig, sydd wedi'i bennu fel 14 diwrnod yn y ddeddfwriaeth. Ar ôl cyflwyno hysbysiad cosb benodedig, ni all awdurdod erlyn am y drosedd honedig os yw'r gosb benodedig yn cael ei thalu o fewn y cyfnod hwn ac mae'n rhaid datgan hyn ar yr hysbysiad ei hun. Gellir derbyn taliadau mewn rhandaliadau os nad yw'r unigolyn yn gallu talu'r swm yn llawn.
69. Gellir anfon llythyr atgoffa i dalu, fodd bynnag dylid gadael o leiaf saith diwrnod ar ôl anfon yr Hysbysiad Cosb Benodedig. Dylai'r llythyr nodi'r holl fanylion canlynol wrth y derbynnydd:
- faint sy'n rhaid iddo ei dalu;
 - erbyn pryd mae angen talu;
 - beth ddigwyddith os na fydd yn talu;
 - sut y gall apelio (os yn berthnasol).

⁷ Rheoliadau Gwasanaethau Talu 2017.

Gostyngiadau am Dalu'n Gynnar

70. I annog taliad buan, gall awdurdodau gorfodi gynnig gostyngiad yn y gosb os yw'r derbynnydd yn ei thalu'n gynnar. Ni ddylai'r cyfnod lle y cynigir gostyngiad am dalu'n gynnar fod yn fwy na 14 diwrnod ac i osgoi dryswch, argymhellir na ddylai fod yn llai na 10 diwrnod.
71. Yn ogystal, mae Rheoliadau Troseddau Amgylcheddol (Cosb Benodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2008 (rheoliad 3) yn nodi symiau isod na ddylai'r cosbau gostyngol fynd yn is na nhw. Y symiau yw:

Tabl 4: Symiau gostyngol am dalu'n gynnar

Cyfradd ddiofyn	Isafswm Cosb Ostyngol
£75	£50
£100	£60
£200	£120
£300	£180

Rheoliadau Dyddodi Gwastraff heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017

72. Gall dirwyon Hysbysiadau Cosbau Penodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon ar raddfa fach amrywio rhwng £150 a £400. Os nad yw'r awdurdod casglu gwastraff wedi nodi swm, £200 yw swm y gosb benodedig. Gall yr awdurdod casglu gwastraff ddarparu gostyngiad am dalu'n gynnar yn achos cosb benodedig nad yw'n llai na £120.

Rheoliadau Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2019

73. O dan y ddyletswydd gofal cartref mae gofyn i feddianwyr eiddo domestig gymryd yr holl fesurau sydd ar gael iddynt, fel sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau, i sicrhau bod unrhyw wastraff cartref a gynhyrchwyd ar eu heiddo yn cael ei drosglwyddo i berson awdurdodedig. Os bydd deiliad tŷ yn torri'r ddyletswydd hon gellir cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig iddo, gyda'r swm o £300 wedi'i bennu ar gyfer Cymru gyfan. Gall awdurdodau gynnig gostyngiad am dalu'n gynnar, sef £150 os yw'n cael ei dalu o fewn 10 diwrnod i gyflwyno'r Hysbysiad Cosb Benodedig.

Ystyried heriau/cynrychiolaethau ac apeliadau

74. Mae'n arfer da i awdurdodau gorfodi sefydlu dull mewnol neu banel adolygu mewnol i ystyried heriau, cynrychiolaethau ac apeliadau. Dylai'r awdurdod gorfodi sicrhau bod y broses yn effeithlon, effeithiol a diduedd.
75. Os oes system o'r fath ar gael dylid darparu'r wybodaeth ganlynol:
- sut, pryd a ble i herio;
 - beth sy'n digwydd os yw'r her/cynrychiolaethau yn llwyddiannus (ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd a bydd yr Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei ganslo);
 - beth sy'n digwydd os yw'r her/cynrychiolaethau yn cael eu gwrthod ac nad yw'r troseddwr yn talu;
 - sut i gwyno.

Mynd â throreddwyr i'r llys am beidio â thalu

76. Dylai awdurdodau gorfodi fynd â throreddwyr i'r llys os nad ydynt yn talu cosbau. Fodd bynnag, gellir ond cymryd camau cyfreithiol 14 diwrnod ar ôl cyflwyno'r Hysbysiad Cosb Benodedig ac mae'n rhaid i'r achos ddechrau o fewn 6 mis i'r drosedd.
77. Bydd methu â mynd ar drywydd hysbysiadau heb eu talu yn tanseilio defnydd Hysbysiadau Cosbau Penodedig yn yr ardal ac yn arwain at lai o daliadau. Mae'n rhaid i'r angen i fynd ar drywydd Hysbysiadau heb eu talu gael ei ystyried wrth ddatblygu strategaeth orfodi a dylid darparu'r adnoddau angenrheidiol. Nid yw'n dderbyniol i awdurdod benderfynu ar ôl cyflwyno hysbysiad cosb benodedig nad oes ganddo'r adnoddau i erlyn os nad yw'r troreddwr yn talu'r hysbysiad.

Atodiad A: Deddfwriaeth Berthnasol – Cosbau Penodedig

Cosbau Penodedig – Mynegai o'r Ddeddfwriaeth

78. Mae'r brif ddeddfwriaeth a'r rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cosbau penodedig ar gyfer troseddau amgylcheddol fel a ganlyn (mae hyperddolenni i'r ddeddfwriaeth berthnasol wedi'u cynnwys yn y testun isod:

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/43/contents

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/16/contents

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/38/contents

Deddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1978/3/contents

Rheoliadau Troseddau Amgylcheddol (Cosbau Penodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2008
www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/663/contents/made

Rheoliadau Dyddodi Gwastraff heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017
www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1024/regulation/2/made

Rheoliadau Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2019
www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/331/contents/made

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/12/part/4/chapter/2/enacted

Atodiad B: Templed ffurflen Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cangen Ansawdd a Rheoleiddio'r Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd, CF10 3NQ

Ffurflenni Cosbau Penodedig Troseddau Taflu Sbwriel, Cŵn yn Baeddu, Graffiti, Gosod Posterï'n Anghyfreithlon a Sŵn am y Cyfnod 1 Ebrill Xxxx i 31 Mawrth Xxxx

Cais am Wybodaeth yn ymwneud â chosbau penodedig

Manylion Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol	
Cyfeiriad Post	
Enw Cyswllt a Theitl Swydd	
Cyfeiriad E-bost Cyswllt	
Rhif Ffôn Cyswllt	

D.S. Dylai'r ffigurau isod gynnwys cosbau penodedig a gyflwynwyd gan unrhyw swyddogion awdurdodedig, yn cynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac unigolion a achredwyd i gynlluniau achredu diogelwch cymunedol.

Sbwrriel	Cŵn yn baeddu	Graffiti	Gosod poster i'n anghyfreithlon	Sŵn	Tipio anghyfreithlon ar raddfa fach	Dylets-wydd gofal deiliad tŷ	Sbwrriel ysmegu
1. Nifer y cosbau penodedig a gyflwynwyd							
2. Nifer y cosbau penodedig a dalwyd							
3. Nifer yr achosion o beidio â thalu a aeth i'r llys							
4. Nifer yr achosion o beidio â thalu sy'n aros am achos llys							
5. Nifer yr achosion o beidio â thalu lle nad oes camau pellach yn cael eu cymryd mewn llys							
6. Swm a gasglwyd (£)							
7. Nifer y llythyron rhybudd a gyflwynwyd (dewisol)							

1. Yn y rhes hon nodwch gyfanswm y cosbau penodedig a gyflwynwyd yn erbyn y drosedd berthnasol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill XXXX a 31 Mawrth XXXX.
2. Yn y rhes hon nodwch gyfanswm y cosbau penodedig a dalwyd yn erbyn y nifer a gyflwynwyd yn rhes 1.
3. Yn y rhes hon nodwch nifer yr achosion a aeth i'r llys oherwydd achos o beidio â thalu cosbau penodedig a gyflwynwyd yn rhes 1.
4. Yn y rhes hon nodwch nifer yr achosion sy'n aros am achos llys oherwydd nad yw'r troseddwr wedi talu cosbau penodedig a gyflwynwyd yn rhes 1.
5. Yn y rhes hon nodwch nifer yr achosion lle na chymerwyd camau pellach yn erbyn cosbau penodedig a gyflwynwyd yn rhes 1, lle na thalwyd y gosb benodedig.
6. Yn y rhes hon nodwch gyfanswm yr incwm cosbau penodedig a gafwyd o gosbau penodedig a gyflwynwyd yn rhes 1. Dylai'r rhes hon gynnwys incwm cosbau penodedig yn unig, ac ni ddylai gynnwys unrhyw gostau eraill. **Os nad yw nifer yr hysbysiadau cosbau penodedig (rhes 1) a gyflwynwyd wedi'u nodi mewn rhesi eraill (2, 3, 4 neu 5) nodwch pam yn y gofod o dan y tabl.**
7. Mae hwn yn ddewisol – mae rhai awdurdodau lleol wedi gofyn i ni ychwanegu hyn i'r ffurflen fel dangosydd o gamau gweithredu a gymerwyd.

Dychwelwch y Ffurflenni erbyn 31 Awst Xxxx drwy:

Ebost: LEQ@gov.wales

gan nodi 'Ffurflen Cosbau Penodedig 20XX/XX (enw eich Awdurdod Lleol)' yn y llinell pwnc.